# PERTHYN

**Ebrill 2023 Rhifyn 315**



Fe ddyry Duw, lle caffo ffydd,
ar ôl pob croes ryw drydydd dydd;
daw at drueiniaid fel o’r blaen
o’i gariad mawr i dreiglo’r maen.

*R. Gwilym Hughes*

*(Rhif 9, Caneuon Ffydd)*

# Gair gan y Gweinidog



Ar y chweched ar hugain o Fawrth, am ddau o'r gloch y bore, 'roedd yr awr yn newid. Awr yn llai yn y gwely, awr yn fwy o olau dydd a'r awr honno oedd yn arwyddo fod y Gwanwyn wedi cyrraedd. Fe fyddai cerddwyr yn aros wrth giât gartref fy nhaid a nain, ar y ffordd i fyny'r Eifl neu Dre Ceiri, ac rwy'n cofio nain ym mhrinder ei Saesneg yn cyfarch un gyda'r geiriau "The days are getting bigger!". Iddi hi, dieithr oedd yr ymadrodd 'drawing out', ac felly roedd y gair 'bigger' yn arwyddo'r 'ymestyn allan' yna rhan oriau a goleuni. Fe aeth y Gaeaf gyda'i dywyllwch a'i oerni a bellach mae yna edrych ymlaen at ddyddiau cynhesach. Yn y man yma hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi'r 'Man Cynnes' yn y Morlan pob dydd Mercher, yn wirfoddolwyr a'r rhai ohonoch sydd wedi bod yn garedig yn ariannol. Fe fyddai'n wir dweud bod pob 'Man Cynnes' yn wahanol a thros fisoedd y Gaeaf wedi esblygu i fod yn fannau i gyfarfod, sgwrsio a dod i adnabod. Profiad bendithiol yw bod yn bresennol ar ddydd Mercher a gwynebau oedd gynt yn ddieithr, bellach i'w gweld fel cyfeillion. Rhan o ddarlun ehangach yw'r hyn sy'n digwydd yn y Morlan, ac yn tanlinellu ymatebion ymarferol i angen ein dydd. Fe fu'r Gaeaf yn un caled i lawer un, gyda'r cynnydd mewn costau byw ac ynni yn arwain at ddioddefaint yn ei amrywiol ffyrdd. Pobl yn gorfod dewis rhwng cadw'n gynnes a rhoi bwyd ar y bwrdd a phlant yn cael eu hamddifadu o bethau sylfaenol bywyd. Dwi'n hoff iawn o eiriau'r diweddar D Hughes Jones, un o blant y Triniti, Llanelli -

'ymateb i'w gri yn drugarog,
rho brawf fod tosturi yn fyw,
mewn angen mae eisiau cymydog
sy'n tystio bod gras wrth y llyw.'

A’n braint ni yw ymateb gyda’r trugaredd yna sy’n ei hanfod yn adlewyrchu trugaredd Duw.

Ond fe fyddai’n wir dweud bod yna aeaf a gwanwyn o natur arall hefyd, yn ffigurol yn ogystal â llythrennol. Yr oerni ysbrydol hwnnw sydd ar gynnydd yn ein gwlad a’i effaith ar batrwm bywyd gan gynnwys y moesol. Fe ddaeth Covid a throi ein hanadliad ben i waered ac yn hynny, bywyd a thystiolaeth yr Eglwys ac yn fy meddwl i, gyflymu'r hyn oedd wedi dechrau ers degawdau. Yn ôl nifer o haneswyr, yn dilyn y ddau Ryfel Byd gyda’u colledion a’u hiraeth, fe ddechreuwyd gofyn cwestiynau yng nghyd-destun ffydd a’r Eglwys ac efallai mai methiant i ateb y cwestiynau hynny’n sydd wedi cyfrannu at ein sefyllfa bresennol. Pwy a ŵyr, ond ymhlith y dirywiad mae rhywun yn poeni braidd na fu’r Eglwys yn ddigon effro yn y Gorllewin. Effro i ddealltwriaeth sylfaenol o’r Efengyl, Effro i natur bywyd, effro i newidiadau, effro i her yr Efengyl. I raddau, fe drodd cymdeithas y dyfodol ei chefn ar yr Eglwys a thrwy’r cyfan fe gadwom ein llygaid ynghau.

Diolch byth nad dyna ddiwedd y stori! Stori’r gwanwyn yw stori’r Efengyl ym mhob cenhedlaeth. Ymhen ychydig wythnosau fe fydd hi’n Basg unwaith eto gyda’i symbolau yn sôn am ddechrau a bywyd newydd. Wedi cerdded llwybr y Grawys yn ein defosiwn a’n haddoliad ac wedi ceisio deall dioddefaint yr Iesu o’r newydd fe fyddwn yn dathlu ei goncwest ar farwolaeth ac yn hynny aeaf ein natur a’n bywydau. Efengyl yr atgyfodiad yw Efengyl yr Iesu, sy’n sôn am fywyd fel y mae Duw yn dymuno i ni ei brofi a’i fyw a’r ffaith fod hynny yn gymaint rhan o’n heddiw ac yr oedd ein hyddoe.

Y Pasg yma, gadewch i ni ddeall hynny o’r newydd a holl oblygiadau hyn i ni fel unigolion ac fel eglwys. Gadewch i ni ymateb mewn ysbryd ‘y newydd, gwahanol’ yna sydd i’w weld ym mhob agwedd o’n bywydau.

Pasg hapus i chi gyd a mwynhewch y siocled!

*Eifion*

## Gweddïwn



Arglwydd Iesu,

a ddioddefodd drosom ar y groes,
gweddïwn dros deulu poen ym mhob man;
dros y rhai sy'n dwyn croes afiechyd a llesgedd,
a'r rhai sydd yng ngafael anobaith ac iselder ysbryd;
dros y rhai sy'n dwyn croes galar a thristwch,
a'r rhai y mae hiraeth ac unigrwydd yn eu llethu;
y rhai sy'n dwyn croes gormes a thrueni,
a'r rhai sy'n nychu o brinder bwyd
Ti, a brofaist holl boenau teulu'r llawr,
rho i'th blant anghenus ym mhob man
dy dangnefedd yn eu gofidiau
a'th nerth i ymgynnal yn eu gwendidau.    AMEN

(Elfed ap Nefydd Roberts o *Cymer fy munudau*, Gol. Aled Davies a Trefor Lewis)   Amen

# Newyddion

*Cofion a dymuniadau gorau*

Anfonwn ein cofion at ein haelodau sydd yn derbyn gofal mewn cartrefi preswyl ac yn eu cartrefi eu hunain. Dymunwn yn dda i Jean Porteous sydd wedi symud i Gartref Cwmcynfelyn.

*Cydymdeimlwn â*

- Ann a Hughie Hughes a Ron a Sylvia Lewis ar farwolaeth efaill i Ann a brawd i Ron sef Mr Emrys Lewis, Cheltenham. Cydymdeimlwn hefyd â'u teuluoedd.
- Sarah Down a John Roberts, a Gwen ar farwolaeth ewythr i Sarah, Evan Henry Morgan, ym Mhenuwch.
- Beryl Roberts a William Cynfab Roberts ar farwolaeth brawd Beryl, David, yn ysbyty Amwythig.

*Llongyfarchiadau*

- i Rhys Jones ar yr anrhydedd o gael ei dderbyn yn Gymrawd o Gymdeithas Ddysgedig Cymru.
- i bawb sydd wedi bod yn cystadlu ac ennill gwobrau mewn amrywiaeth o gystadlaethau yn Eisteddfodau'r Urdd - yn unigol, fel rhan o ddeuawd, parti, grŵp, cerddorfa neu gôr a dymunwn yn dda i'r rhai fydd yn mynd ymlaen i Eisteddfodau'r Sir.

COFIWCH am y CROESO CYNNES (Paned, Cawl a Chymdeithas) yn y Morlan bob dydd Mercher o 11 tan 2 o'r gloch.

Diolch yn fawr i bawb sydd yn cynorthwyo ac yn croesawu a diolch am y rhoddion ariannol. Mae'n braf croesawu disgyblion o Ysgol Penweddig i gynorthwyo hefyd.

## Hadau Gobaith

DIOLCH am eich cyfraniadau hael yn ystod y misoedd diwethaf tuag at Apêl Cymorth Cristnogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru, HADAU GOBAITH. Mae'r Trysorydd wedi anfon ein cyfraniad trwy'r Henaduriaeth i Cymorth Cristnogol ddiwedd Mawrth.

## Yr Ysgol Sul

Fel rhan o'r dathliadau Gŵyl Dewi trefnwyd Llanllanast arbennig i greu cardiau, bynting a chrefft yn seiliedig ar hanes Dewi Sant yn cyfarch y dyrfa yn Llanddewi Brefi. Ar y Sul yn dilyn y Parêd trefnwyd gwasanaeth Unedig i eglwysi Cymraeg y dref a braf oedd croesawu aelodau o Ysgol Sul Seion atom i'r Ysgol Sul.

Y ddau Sul dilynol yn ystod mis Mawrth cyflwynwyd stori'r Pedwar Ffrind yn mynd â'r dyn cloff at Iesu a chafwyd cyfle i greu cardiau ar Sul y Mamau.

Edrychwn ymlaen at Llanllanast y Pasg, y gwasanaeth teulu a'r Helfa Wyau.

**Dydd Sul y Pasg 9 Ebrill am 10 y.b. Gwasanaeth Teulu**
**Edrychwn ymlaen unwaith eto at ddathlu'r Pasg**
*(gan gofio'r ymwelwyr a'r wyau o'r blynyddoedd gynt!)*
**HELFA WYAU** yn dilyn y gwasanaeth
*yng Nghoedwig Penglais*



# Ebeneser



**Cofion**
Anfonwn ein dymuniadau gorau at ein haelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser ac at y rhai sydd mewn cartrefi gofal.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Ron a Sylvia Lewis ac Ann a Hughie Hughes a'u teuluoedd ar farwolaeth brawd Ron ac efaill Ann, sef Mr Emrys Lewis, Cheltenham.

**Gwasanaethau**
Cynhaliwyd Gwasanaeth Cymun o dan ofal ein Gweinidog, Eifion Roberts yn Ebeneser ar brynhawn Sul, Mawrth 5ed a gwasanaeth o dan ofal Beti Wyn James, Caerfyrddin ar brynhawn Sul, Mawrth 26ain. Edrychwn ymlaen at y gwasanaeth nesaf a Chymun ar brynhawn Sul y Pasg am 2.15.

**Cyfarfod Cenhadol Dosbarth Gogledd Ceredigion**

**yng Nghapel Rhydfendigaid**

Prynhawn dydd Sadwrn, 22 Ebrill am 2 o'r gloch

Anerchir gan Dr Rhiannon Ifans, Penrhyn-coch

Bydd casgliad a phaned o de. Dewch â Caneuon Ffydd

Croeso cynnes i bawb

## Y Casgliad Cenhadol


Fel sydd yn arferol bydd Capel y Morfa yn anfon cyfraniad tuag at gasgliad y Sasiwn Cenhadol. Bydd y cyfanswm yn cael ei drosglwyddo yn ystod Sasiwn Capel y Morfa tuag at hyrwyddo prosiectau mewn gwledydd tramor ac yma yng Nghymru.

Os ydych yn dymuno cyfrannu bydd Mary Jones Morris neu Eleri Davies yn ddiolchgar i dderbyn eich cyfraniad erbyn diwedd Ebrill. *Mae hyn yn lle'r blychau cenhadol ers llawer dydd.*

# Lluniau o weithgareddau'r Ysgol Sul

## Gŵyl Dewi







**Byddwch lawen a gwnewch y pethau bychain**






# Iachau claf ddaeth trwy'r to









# Chwyn



Mae na flas gwanwyn yn y tir, diolch byth, mymryn o haul cynnes a'r ddaear yn ymateb a'r adar yn canu ben bore. Onid does na ryw ryfeddod yn y cyfan, hyd yn oed mewn chwyn. Er efallai y dylid dweud fod mwy o ryfeddod mewn chwyn. Mymryn o rew ac mi fydd y geraniums oedd mor hardd llynedd yn farw gorn, mymryn o wynt miniog y mor ac mi fydd dail bregus ambell flodyn wedi deifio, ond rhew, gwynt miniog, chwyn laddwr cryf, chwynwr brwdfrydig cyson – a does dim oll yn rhwystro'r chwyn rhag ailgodi. Mae ganddyn nhw ddawn ryfedd i ail ymddanos hyd yn oed drwy drwch o goncrid. Fe ddont o hyd i'r crac lleiaf yn hwnnw hyd yn oed a mynnu byw.

Efallai ei bod hi'n gymhariaeth dipyn bach yn od ond mae chwyn yn gallu bod yn ddarlun i ni o atgyfodiad. Tybed nad chwyn oedd ym meddwl Eseia pan ddisgrifiodd y Gwas Dioddefus fel un yn *tyfu fel blaguryn, ac fel gwreiddyn mewn tir sych*, achos *nid oedd na phryd na thegwch iddo, na harddwch i'w hoffi wrth i ni ei weld, roedd wedi ei ddirmygu a'i wrthod gan ddynion...* (Eseia 53). Ar y Pasg cyntaf hwnnw fe geisiodd yr awdurdodau gael gwared o'r Iesu, ei ladd a'i ddinistrio, ceisio ei ddileu, ond nid oedd hynny yn bosibl, ni allai angau ei ddal yn gaeth, ac ni allai bedd ei orchfygu, a dyna pam fod gweld y chwyn yn gwthio ei blagur drwy bob anhawster yn atgoffa rhywun o atgyfodiad Crist.

Ond meddai rhywun, dwi ddim eisiau chwyn yn fy nghardd daclus i, a rhaid i minnau gyfaddef dydw innau ddim yn rhy hapus pan fydd chwyn yn mynnu eu lle rhwng y slabiau llechi yng nghefn y tŷ. Does fawr o groeso i chwyn yn aml. Ond mae'r naturiaethwyr yn dweud yn gyson bellach fod ein gerddi taclus yn difa bio-amrywiaeth yn ein byd.

Oherwydd hynny meddent mae angen gadael darnau o'r gerddi i fynd yn wyllt. Gadael i'r chwyn gael ei ffordd oherwydd y mae ei awch am fywyd yn hyrwyddo bywyd yn ei holl amrywiaeth. Onid dyna y mae'r Crist atgyfodedig yn ei wneud hefyd. Os yw Crist yn cael ei le, y mae ei afiaeth a'i egni yn ein llenwi ninnau gan adnewyddu ein bywyd ysbrydol, ond hefyd ein bywyd diwylliannol, personol a chymdeithasol. Peidiwn a chondemnio chwyn felly, mi alla nhw ein hatgoffa o'r Iesu a'r bywyd na ellir ei ddinistrio. Dylid cofio hefyd mai pethau ffôl y byd, a phethau gwan a phethau distadl mae Duw yn eu ddewis ac yn eu ddefnyddio o hyd. Onid dyna ydym ni, ond mae'n fodlon ein llenwi a grym bywyd anorchfygol y Crist atgyfodedig.

*John Roberts*

* * * * *

## Gweddi a Choffi ar fore dydd Mawrth

Ymunodd Mrs. Margaret Jones â ni ar Zoom o Bort Talbot i sôn am waith ardderchog y Samariaid sydd ar gael ddydd a nos i dderbyn galwadau ac i estyn clust i wrando. Roedd yr ail gyfarfod yn y festri. Trwy gyfrwng emynau a darlleniadau cawsom ein harwain gan Rhidian Griffiths i fyfyrio ar y geiriau *Gweld yr Iesu.* Yn dilyn gwasanaeth unedig, Dydd Gweddi'r Byd a baratowyd eleni gan chwiorydd Taiwan, cawsom gyfle i ddysgu mwy am Ynys Taiwan a'i bywyd eglwysig trwy gyfrwng cyflwyniad a baratowyd gan Eifion ar Zoom. I gloi'r tymor cynhelir Myfyrdod y Pasg yn y festri ar ddydd Mawrth, Mawrth 28ain am 10.30.

## Astudiaeth Ffydd a Phaned – prynhawn dydd Gwener ar Zoom am 2 o'r gloch

Mae'r Astudiaethau ar Ddehongli Bywyd Abraham wedi parhau drwy'r tymor. Mae'r hanes yn ddiddorol, y cwestiynau yn berthnasol heddiw a'r drafodaeth yn fywiog.

## Cinio Bara a Chaws dan nawdd Cymorth Cristnogol

Bydd y cinio Bara a Chaws nesaf yn cael ei gynnal yng **Nghanolfan Sant Paul** ar **ddydd Llun, 3ydd o Ebrill, o hanner dydd tan hanner awr wedi un o'r gloch.**

Croeso cynnes i bawb!

## Apêl Hadau Gobaith



Hoffem fel ieuenctid ddiolch yn fawr i chi gyd am eich cymorth yn casglu'r arian mân ar gyfer y blodyn haul - rhan o Apêl Hadau Gobaith Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Cyfanswm terfynol yr arian oedd **£139.97**. Diolch i chi i gyd.

# Dydd Gweddi'r Byd Mawrth 2023




Cynhaliwyd gwasanaeth Cymraeg Dydd Gweddi'r Byd eleni yn Seion ar 10fed o Fawrth. Addurnwyd blaen y festri gyda defnydd glas a gwyrdd i gynrychioli môr a mynyddoedd Taiwan a blodau lili a thegeirian sy'n nodweddiadol o'r wlad.

Cymerodd nifer o aelodau eglwysi Aberystwyth ran yn y gwasanaeth Cymraeg. Y rhain oedd eglwysi Seion, Bethel, Santes Fair, Eglwys Merthyron Cymru a'r Morfa. Yn y llun gwelir aelodau o'r Morfa a gymerodd ran.



# Gweddïwn

Arglwydd Dduw,
diolchwn mai ohonot ti y daw pob bywyd newydd
sy'n adfer ac adnewyddu.



Diolchwn am bob profiad
o lawenydd yn gorchfygu tristwch,
o gariad yn gorchfygu atgasedd,
o ffydd yn gorchfygu ofn.

Diolchwn yn arbennig am Efengyl y bedd gwag,
am lawenydd a rhyfeddod y trydydd dydd,
am i Iesu Grist ddryllio pyrth angau
a bod yn angau i'n hangau ni.

Cadw ni'r dydd hwn rhag bodloni
ar goffáu'r digwyddiad pell yn ôl yn unig,
ond i wybod fod Iesu yn fyw heddiw
ac yn cerdded llwybrau'n bywyd ni.

A chyda dy holl bobl yn y nef ac ar y ddaear,
datganwn mewn addoliad a llawenydd:

**Crist a gyfodwyd!**
**Efe atgyfodwyd yn wir!**

(Elfed ap Nefydd Roberts *o Cymer fy Munudau,* Gol. Aled Davies a Trefor Lewis)

# Adroddiad y Gymdeithas 6 Mawrth



Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas ar 6ed o Fawrth. Meurig a Nia Royles a gymerodd y defosiwn. Croesawyd y Parchg Jeffrey Gainer gan ein cadeirydd, Lona Jones, a soniodd am ei gyfnod ym Mhrifysgol Rhydychen, yn dysgu yng Ngholeg San Mihangel, Caerdydd, ac fel ficer plwyf ym Meidrim. Testun y siaradwr oedd 'Cristnogaeth a'r Ieithoedd Celtaidd.' Soniodd am yr ieithoedd hyn gan nodi fod y Gymraeg dipyn cryfach na'r gweddill. Er hyn, ei gred yw bod pob iaith yn gyfartal a defnyddir pob un mewn addoliad gan ei phobl. Pwysleisiodd na ddylid ymhyfrydu mewn unrhyw iaith ar draul iaith arall. Yn hytrach, dylem ymhyfrydu yn ei gwerth diwylliannol ac fel cyfrwng i ddysgu am ac i addoli Duw. Mae Cristnogaeth yn rhoi pwysigrwydd ar ddeall y Beibl yn iaith y darllenydd. Daeth Rhidian Griffiths i adnabod y Parchg Jeffrey Gainer pan oedd y ddau'n fyfyrwyr yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen, a nododd Rhidian enwau rhai a ddylanwadodd yn fawr arnynt wrth ddiolch yn gynnes i Jeffrey Gainer am anerchiad arbennig.

Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas ar 27 Mawrth. Elin Haf Gruffydd Jones fydd y siaradwraig a bydd arolwg o'r flwyddyn.

# Gŵyl Ddewi i'w chofio

Cafodd Dan Rowbotham, un o blant Capel y Morfa, Ŵyl Ddewi i'w chofio eleni pan fu'n arwain taith yr Urdd yn Unol Daleithiau America.

Yn gwmni i Dan oedd Cai Fôn Davies (tenor), Catrin Mai Edwards (alto), Dan O'Callaghan (baswr a phianydd) ac Esyllt Thomas (soprano). Trefnwyd fod y pump yn cymryd rhan mewn wyth digwyddiad yn cychwyn yn Washington DC ar 25 Chwefror, ymlaen i Ddinas Efrog Newydd, a gorffen yn Philadelphia ar 5 Mawrth.



Ar Ddydd Gŵyl Ddewi roeddynt yn cynnal cyngerdd yn Harriton House yn Philadelphia adeiladwyd yn 1704 gan Rowland Ellis, y Crynwr o Ddolgellau. Enw gwreiddiol y tŷ hwn oedd Bryn Mawr, sef cartref Rowland yn Nolgellau.

Ymhlith y Cymru ddaeth i gyfarfod criw'r Urdd oedd Ann Griffith, gynt o Aberystwyth, yr actor Matthew Rhys, Edward Morus Jones, a'r chwaraewr rygbi Jamie Roberts.

Yn y llun gwelir Dan a'r cantorion wedi i Dan gael ei wneud yn aelod anrhydeddus o Gymdeithas Gymreig Phladelphia a sefydlwyd ar 1 Mawrth 1729.

*Gwynfor Jones*

## Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Sasiwn Cenhadol Chwiorydd y De
## Capel y Morfa, Aberystwyth

**Dydd Iau, 18 Mai 2023**

**Cyfarfod y Prynhawn**
**am 2 o'r gloch**

**Anerchir gan Y Parchg Mererid Mair Williams,**
**Noddfa Caernarfon**

**Cyfarfod yr Hwyr**
**am 5 o'r gloch**

**Anerchir gan Dr Arfon Jones**
**Caerdydd (Beibl.net)**

**Croeso Cynnes i Bawb**

***Byddwn yn darparu te yn y festri rhwng y ddau gyfarfod***

## Blaenor y mis: Wyn Hughes

## Dyddiadur Ebrill 2023

**Gwasanaethau'r Sul: 10 y bore yng Nghapel y Morfa ac ar Zoom. 2:15 y prynhawn yn Ebeneser.**

2 Ebrill - Y Bugail
9 Ebrill (Sul y Pasg) - Y Bugail
16 Ebrill - Y Parchg Eric Jones
23 Ebrill - Y Bugail
30 Ebrill - Y Parchg Anna Jane Evans

**Gwasanaethau Nos Iau Cablyd a Gwener y Groglith**

6 Ebrill – Gwasanaeth dwyieithog yn Seion, Stryd y Popty am 7:30. Pregethwr: Y Parchg Bob Capper.

7 Ebrill – Gwasanaeth yn Eglwys y Santes Fair am 10.

**Rhestr flodau mis Ebrill Capel y Morfa**

2 Ebrill - Eleri Davies
9 Ebrill (Sul y Pasg) - Eifion ac Alwen Roberts
16 Ebrill - Hefina Wright a Sian Richards
23 Ebrill - Nia Mair
30 Ebrill -

**Ysgol Sul** Plant a ieuenctid: yn y festri.

**Cylch gweddi a choffi:** Bore Mawrth am 11 y.b. ar Zoom neu'r Festri.

**Ffydd a phaned:** Prynhawn Gwener am 2 y.p. ar Zoom.

*Diolch i Catherine Griffiths, Gwenda Sippings,
Gwynfor Jones ac Eifion am y lluniau yn y rhifyn hwn.*

**Golygydd y rhifyn hwn yw Hywel Lloyd.
Cyfraniadau ar gyfer rhifyn mis Mai o Perthyn i
Sara a John Roberts (sarahminyfron@hotmail.com)
erbyn dydd Sul 23 Ebrill, os gwelwch yn dda.**

